








# ARFARNIAD ARDAL GADWRAETH CAERLLION

AWST 2018 – DRAFFT YMGYNGHORI

**Argraffiad 1**
Awst 2018
*Drafft Ymgynghori*

Lluniwyd gan Purcell ar ran Cygor Dinas Casnewydd.

www.purcelluk.com

# CAERLEON CONSERVATION AREA APPRAISAL
## CONTENTS


1.0 CYFLWYNIAD 04
1.1 Ardal Gadwraeth Caerllion 04
1.2 Diffiniad o Ardal Gadwraeth 04
1.3 Diben a Chwmpas yr Arfarniad Ardal Gadwraeth 07

2.0 CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO 08
2.1 Deddfwriaeth y DU a Chymru 08
2.2 Polisi Lleol 08
2.3 Canllawiau 09
2.4 Ymgynghori 09

3.0 CYMERIAD 10
3.1 Datblygiad Hanesyddol 10
3.2 Archeoleg 15
3.3 Topograffi 15
3.4 Golygfeydd 16
3.5 Cyfluniad a Chyfeiriad Symudiad 21
3.6 Cymeriad Pensaernïol 22
3.7 Mannau ac Ardaloedd Cyhoeddus 27

4.0 ARFARNIAD 29
4.1 Datganiad o Ddiddordeb Arbennig 29
4.2 Archwiliad Asedau Treftadaeth 30
4.3 Problemau a Chyfleoedd 35

5.0 CYNLLUN RHEOLI 39
5.1 Adolygu'r Ffin 39
5.2 Mesurau Rheoli yn sgil Dynodi Ardal Gadwraeth 43
5.3 Canllawiau Cadwraeth a Dylunio 43
5.4 Nodau ac Amcanion 47

RHAGOR O WYBODAETH 49

RHESTR TERMAU PENSAERNÏOL 51

MANYLION CYSWLLT 52

ATODIAD A: RHESTR ASEDAU TREFTADAETH 53

# 1.0 CYFLWYNIAD

## 1.1 ARDAL GADWRAETH CAERLLION

1.1.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Caerllion yn wreiddiol ar 11 Mehefin 1970 a'i hestyn ar 8 Rhagfyr 1977; mae'n un o 15 Ardal Gadwraeth dan awdurdodaeth Cyngor Dinas Casnewydd.

1.1.2 Mae Ardal Gadwraeth Caerllion yn cydnabod ei hanes cyfoethog a sut mae tarddiad Rhufeinig yr anheddiad a'r datblygiad canoloesol diweddarach wedi arwain at y cymeriad unigryw a'r presenoldeb archeolegol cryf sydd yno heddiw.

### CRYNODEB O NEWIDIADAU ARFAETHEDIG 2018:

- Hepgor llawer o'r man agored rhwng yr amffitheatr a'r afon, sy'n cael ei warchod yn well gan y dynodiadau Heneb Gofrestredig sydd ar waith.
- Symleiddio'r ffin i roi ystyriaeth i derfynau lleiniau.
- Mân ychwanegiadau at y ffin i gynnwys adeiladau sy'n cyfleu cymeriad yr ardal gadwraeth.


## 1.2 DIFFINIAD O ARDAL GADWRAETH

1.2.1 Diffinnir ardal gadwraeth yn '*ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y byddai'n ddymunol cadw neu wella ei chymeriad*'.[01]

1.2.2 Mae ardaloedd cadwraeth yn cydnabod ansawdd unigryw ardal yn gyffredinol. Nid ydynt yn ymwneud â chyfraniad adeiladau a henebion unigol yn unig, ond hefyd â nodweddion eraill, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) dopograffi, celfi stryd, mannau agored a thirlunio. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at gymeriad a golwg ardal, gan arwain at ymdeimlad unigryw o le.

1.2.3 Mae'r graddau mae adeilad, neu grŵp o adeiladau/adeileddau, yn effeithio'n gadarnhaol ar gymeriad ardal gadwraeth yn seiliedig ar gyfanrwydd eu saernïaeth hanesyddol, eu maint a'i maintioli cyffredinol, eu manylion a'u deunyddiau, yn ogystal â'u gweddluniau sy'n wynebu'r stryd. Gall ystlysluniau a chefnluniau fod yn bwysig hefyd.

01 Adran 69 (1), Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.




*Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi (h) Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Dinas Casnewydd: 100024210 (2018).*

[MAE’R DUDALEN HON WEDI’I GADAEL YN WAG YN FWRIADOL]

## 1.3 DIBEN A CHWMPAS YR ARFARNIAD ARDAL GADWRAETH

1.3.1 Mae'n ofyniad o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i bob Awdurdod Cynllunio Lleol '*lunio a chyhoeddi cynigion i gadw a gwella'* ardaloedd cadwraeth dan ei awdurdodaeth, ac i'r dogfennau hyn gael eu hadolygu o dro i dro.[02]

1.3.2 Nid yw ffin Ardal Gadwraeth Caerllion wedi cael ei hadolygu ers ei dynodi'n wreiddiol. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cynnal strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer rheoli ardal gadwraeth yn gadarnhaol. Mae'r dogfennau cyhoeddus hyn yn diffinio ac yn cofnodi diddordeb arbennig ardal gadwraeth ac yn gosod cynllun gweithredu er mwyn parhau â'r gwaith i'w diogelu a'i gwella.

1.3.3 Dros amser, mae ardaloedd cadwraeth yn newid a gall y nodweddion sy'n sail eu diddordeb arbennig leihau yn eu cyfanrwydd oherwydd newid graddol. Felly, mae'n bwysig adolygu ac ailasesu cymeriad ardal gadwraeth bob hyn a hyn er mwyn sicrhau bod y dynodiad yn addas o hyd a bod newid yn parhau i gael ei reoli'n briodol.

1.3.4 Yn aml yn y gorffennol, mae ffiniau ardaloedd cadwraeth wedi cael eu tynnu'n rhy gaeth neu maent wedi cynnwys ardaloedd ymylol nad ydynt yn cyfrannu at ddealltwriaeth o gymeriad. O ganlyniad, mae'n bwysig adolygu'r ffin i gynnwys/eithrio adeiladau a mannau sy'n bodloni/nad ydynt yn bodloni meini prawf dynodi ardaloedd cadwraeth.

1.3.5 Nod yr Arfarniad Ardal Gadwraeth hwn yw:

- Cofnodi a dadansoddi cymeriad a diddordeb arbennig Ardal Gadwraeth Caerllion;
- Cydnabod yr asedau treftadaeth dynodedig a'r rhai nad ydynt wedi'u dynodi o fewn yr ardal gadwraeth;
- Nodi'r risgiau sy'n bygwth nodweddion arbennig yr ardal gadwraeth;
- Nodi'r cyfleoedd i wella'r ardal gadwraeth; a
- Gosod cynllun rheoli gyda chanllawiau a pholisïau i reoli'r ardal gadwraeth yn gadarnhaol, a'i diogelu a'i gwella.

1.3.6 Er y bwriedir i'r ddogfen hon fod yn gynhwysfawr, nid yw hepgor unrhyw adeilad, adeiledd, nodwedd neu le yn awgrymu nad yw'r elfen honno yn bwysig neu nad yw'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r protocolau a amlinellir yn adran 5 (Cynllun Rheoli) yn berthnasol ym mhob achos.

1.3.7 Cynhaliwyd yr asesiadau sy'n darparu'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr Arfarniad Ardal Gadwraeth hwn trwy ddefnyddio adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd a thrwy ddadansoddi ar y safle o'r llwybrau tramwy cyhoeddus yn yr ardal gadwraeth.

02 Adran 71 (1), Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

# 2.0 CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO

## 2.1 DEDDFWRIAETH Y DU A CHYMRU

2.1.1 Cafodd ardaloedd cadwraeth eu cyflwyno yn y Deyrnas Unedig dan Ddeddf Amwynderau Dinesig 1967. Cânt eu llywodraethu bellach dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

2.1.2 Pasiwyd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016 sy'n addasu deddf 1990 er mwyn iddi fod yn benodol i Gymru a'i hamgylchedd hanesyddol hi. Nodau deddf 2016 yw:

- Diogelu adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn fwy effeithiol;
- Gwella dulliau cynaliadwy o reoli'r amgylchedd hanesyddol; a
- Chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i'r broses gwneud penderfyniadau gan ystyried yr amgylchedd hanesyddol.[01]

2.1.3 Rhoddir rhagor o arweiniad yn Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Argraffiad 9, Tachwedd 2016) a chyfres o Nodiadau Cyngor Technegol, sy'n dylanwadu ar gynlluniau datblygu ar lefel ddeddfwriaethol leol.

## 2.2 POLISI LLEOL

2.2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Dinas Casnewydd 2011-2016 yn bolisi ffurfiol ym mis Ionawr 2015 ac mae'n pennu amcanion yn ogystal â pholisïau strategol a phenodol i destunau er mwyn llywio datblygiad y ddinas.

2.2.2 Mae SP9 yn ymwneud â chadwraeth yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig:

*Bydd gofyn am gadw, gwella a rheoli safleoedd cydnabyddedig o fewn yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ym mhob cynnig.*

2.2.3 Mae CE7 yn ymwneud ag ardaloedd cadwraeth:
*Bydd rhaid i ddatblygiad mewn ardaloedd cadwraeth neu'n gyfagos iddynt:*

i *Gael ei ddylunio i gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth, gan roi ystyriaeth i arfarniad yr ardal gadwraeth lle bo hynny'n briodol.*

ii *Osgoi tynnu'r nodweddion hanesyddol sydd eisoes yno, gan gynnwys blaenau siop a saernïaeth traddodiadol.*

iii *Defnyddio deunyddiau sy'n draddodiadol neu'n addas i'w cyd-destun.*

iv *Cydweddu â neu adlewyrchu rhinweddau pensaernïol adeiladau gerllaw sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad yr ardal.*

v *Rhoi sylw arbennig i leoliadau adeiladau ac osgoi colli unrhyw erddi cartref a mannau agored sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal.*

vi *Osgoi effaith andwyol ar unrhyw olygfeydd nodedig o fewn, tuag at neu oddi allan yr ardal gadwraeth.*

01 Cadw, http://cadw.gov.wales/historicenvironment/policy/historicenvironmentbill/provisions/

## 2.3 CANLLAWIAU

2.3.1 Gwasanaeth Llywodraeth Cymru yw Cadw sy'n gyfrifol am reoli'r amgylchedd hanesyddol. Yn ogystal â gofynion deddfwriaethol y ddogfen hon, mae'r Arfarniad Ardal Gadwraeth wedi cael ei baratoi yn unol â'r canllawiau arfer gorau a gyhoeddwyd gan Cadw, yn benodol:

- Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Mawrth 2011).
- Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru (Mai 2017).
- Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru (Mai 2017).
- Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru (Mai 2017).
- Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru (Mai 2017).
- Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru (Mai 2017).

2.3.2 Ceir manylion llawn yn yr adran Rhagor o Wybodaeth ar ddiwedd y ddogfen hon.

## 2.4 YMGYNGHORI

2.4.1 Mae'n ofyniad o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i bob Awdurdod Cynllunio Lleol lunio a chyhoeddi cynigion i gadw a gwella ardaloedd cadwraeth dan ei awdurdodaeth, ac i'r canllawiau hynny fod yn destun adolygiad cyhoeddus.[02]

2.4.2 Bydd yr arfarniad drafft hwn o Ardal Cadwraeth Caerllion yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus pan fydd modd cyflwyno sylwadau i'r Cyngor. Mae'n bwysig bod yr arfarniad terfynol a fabwysiedir yn ffurfiol fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i'r cyhoedd, yn ogystal â'r awdurdod lleol. Felly, mae'n bwysig bod cymuned Casnewydd yn cael y cyfle i fynegi ei barn.

02 Adran 71, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

# 3.0 CYMERIAD

## 3.1 DATBLYGIAD HANESYDDOL

### 3.1.1 Llinell Amser Dyddiadau Allweddol

**Tua 600-300 CC**
Awgryma tystiolaeth archeolegol y sefydlwyd bryngaer Oes Haearn fawr i'r gogledd-orllewin o'r anheddiad presennol yng Nghaerllion.

**Tua 75**
Sefydlwyd caer Rufeinig yng Nghaerllion o'r enw *Isca*.

**Tua 300**
Ymadawodd y milwyr Rhufeinig â Chaerllion, gan adael poblogaeth lai ar eu hôl.

**1086**
Mae arolwg Llyfr y Farn yn cofnodi presenoldeb castell.

**1171**
Cofnodwyd bwrdeistref am y tro cyntaf.

**Tua 1500au-1800au**
Ffynnai Caerllion fel porthladd a thref farchnad.

**1830**
Sefydlwyd Heol Newydd, a oedd yn osgoi canol Ultra Pontem.

**1879**
Diddymwyd y doll ar gyfer Heol Newydd.

**1909**
Cynhaliwyd y gloddfa ffurfiol gyntaf o'r amffitheatr Rufeinig.

### 3.1.2 Mapiau

3.1.3 Mae'r cynllun cynharaf o Gaerllion yn dangos crynhoad o adeiladau (y llinellau tywyll trwchus) ar hyd y Stryd Fawr a Heol Isca, gan fforchio i'r gogledd ar hyd Stryd yr Amgueddfa, Stryd Backhall, Stryd y Felin a Stryd y Castell. Y tu ôl i'r adeiladau a oedd yn wynebu'r stryd roedd sawl llain berllan a chae.

3.1.4 Mae siâp cerdyn chwarae nodweddiadol waliau'r gaer Rufeinig (hirsgwar â chorneli crwn), yr amffitheatr Rufeinig a thwmpath y castell canoloesol cynnar hefyd i'w gweld ar y cynllun o 1800, sy'n dangos sut mae llawer o wahanol gyfnodau anheddiad yn gorgyffwrdd â'i gilydd yng Nghaerllion. Mae Broadway a'r Stryd Fawr yn torri ar draws y gaer yng nghanol ei waliau deheuol a gorllewinol, gan ddangos mai tramwyfeydd Rhufeinig yw'r rhain a oedd yn ymestyn o'r afon i'r gaer, yn enwedig Broadway sy'n nodweddiadol o syth yn y dull Rhufeinig. Nid yw ffordd ddynesu canol Caerllion ar hyd Lodge Road yn cael ei dangos ar y map hwn ond mae'n dilyn cwrs bras i'r gaer o'r gogledd lle safai porth canolog arall, fel ar Stryd Backhall ar yr ochr ddwyreiniol. O fewn ffiniau'r hen gaer, mae geometreg nodweddiadol aneddiadau Rhufeinig wedi cael ei cholli a'r hyn a welir yn gliriach o ran y tramwyfeydd yw'r cynllun canoloesol (strydoedd cul ac afreolaidd nodweddiadol).

3.1.5 Wrth gyrraedd Caerllion o'r de, mae'r bont yn ymddangos yn ei lleoliad cynharach, ychydig i'r gogledd-ddwyrain/ymhellach lan yr afon o'i safle presennol. Ar y pryd hwnnw gelwid hanner deheuol y Stryd Fawr yn Stryd y Bont am y groesfan nad yw'n bodoli erbyn hyn y ceid mynediad iddi o'r hyn sydd bellach yn Heol Isca i'r de (o Ultra Pontem, Lladin am 'dros y bont'). Adeiladwyd y bont bresennol ychydig ar ôl cyhoeddi'r cynllun hwn, rhwng 1806 a 1812 ar ôl i'r adeiledd pren cynharach gael ei olchi i ffwrdd.




*Cynllun o Gaerllion, 1800*

3.1.6 Cofnodir yr un patrwm o strydoedd yn y map degwm o 1840, heb fawr o newid ers y cynllun o Gaerllion o 1800. Dengys y map diweddarach y grwpiau cryno o adeiladau ar hyd y prif dramwyfeydd yn fwy eglur, yn enwedig y Stryd Fawr a Stryd Backhall. Roedd canran uchel o fannau gwyrdd o hyd. Nid oedd Ultra Pontem wedi'i chynnwys yn yr un arolwg.




*Map degwm o Gaerllion, 1840*

3.1.7 Yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif, roedd y rheilffordd wedi'i gosod yn agos at ochr ogledd-orllewinol Caerllion a dechreuodd datblygiad ledaenu i'r cyfeiriad hwn. Tua'r adeg hon yn ystod y Chwyldro Diwydiannol, bu cynnydd yng ngweithgarwch dociau Casnewydd, gan ddenu masnach o Gaerllion. Gellir gweld adeiladau dinesig, gan gynnwys gorsaf heddlu, ystafell ddarllen, amgueddfa a chapeli amrywiol, yn yr argraffiad cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans, sy'n dangos bod Caerllion yn anheddiad ffyniannus o hyd er gwaethaf amlygrwydd cynyddol Casnewydd gerllaw.




*Arolwg Ordnans, 1886*

3.1.8 Roedd pwysigrwydd archeolegol Caerllion yn cael ei gydnabod yn gynyddol o ddechrau'r 20fed ganrif ymlaen ar ôl cynnal y gloddfa ffurfiol gyntaf yn yr amffitheatr ym 1909. Cyn hyn, roedd archwiliadau wedi bod yn dameidiog a heb oruchwyliaeth, gan arwain at ddefnyddio deunydd archeolegol i godi'r adeiladau sy'n goroesi hyd heddiw.



Arolwg Ordnans, 1922

## 3.2 ARCHEOLEG

3.2.1 Mae gan Gaerllion grynhoad uchel iawn o safleoedd archeolegol hysbys a phosib, fel a gydnabyddir yn y 22 o henebion cofrestredig o fewn ffiniau'r ardal gadwraeth a'r Ardal Archeolegol Sensitif sy'n ymestyn ymhellach.

3.2.2 Mae pob un ond dwy o henebion cofrestredig Caerllion yn ymwneud â'i meddiannaeth gan filwyr Rhufeinig yr 2il Leng Awgwstaidd, a sefydlodd gaer furiog enfawr dros yr ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r amffitheatr tua 75 OC, gan fanteisio ar yr afon a'i thopograffi amddiffynnol. Ar ei hanterth, roedd gan y gaer le ar gyfer 5,500 o filwyr gyda barics, neuadd ymarfer, baddonau, gweithdai a graneri. Roedd yn un o dair caer Rufeinig flaenllaw ym Mhrydain; sefydlwyd y ddwy arall yng Nghaer ac yng Nghaerefrog. Y tu allan i'r gaer, ar ochr dde-orllewinol yr amffitheatr, sefydlwyd anheddiad sifil bach ynghyd â chei glan afon. Er yr adeiladwyd ar ben safle'r gaer Rufeinig gyda chynllun canoloesol, mae'r anheddiad sifil wedi cael ei adael heb ei ddatblygu gan mwyaf ac mae bellach yn ymdebygu i orlifdir agored neu gaeau.

3.2.3 Penderfynwyd cofrestru'r henebion rhwng 1974 a 1997 oherwydd y gydnabyddiaeth gynyddol fod yr archeoleg a'r posibiliadau archeolegol yng Nghaerllion o bwys cenedlaethol. Ceir rhestr lawn o henebion cofrestredig yn Atodiad A (Archwiliad o Asedau Treftadaeth) a nodir yr ardaloedd a ddynodir ar Gynllun 3b. Gellir gweld y cofnodion archeolegol llawn trwy Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent ac Archwilio (gweler *Rhagor o Wybodaeth*).

## 3.3 TOPOGRAFFI

3.3.1 Mae tirwedd dopograffig Casnewydd wedi cael ei llunio gan lif yr Afon Wysg, sydd wedi creu sylfaen ddaearegol o ddyddodion gwaddodol o ganlyniad i filenia o lifogydd a symudiad y dŵr i'r de tuag Aber Afon Hafren.

3.3.2 Yn gyffredinol mae'r ardal gadwraeth yn gymharol wastad, gyda rhai ardaloedd o amrywiad topograffig mwy amlwg gan nodi llethr nodweddiadol i lawr tuag at yr afon. Mae gan Stryd y Castell dopograffi unigryw, gan ddisgyn yn sydyn i'r de-orllewin gydag adeiladau ar darren uchel ar ei hochr ddeheuol. Mae gan Stryd y Felin lethr ddisgynnol fwy graddol i'r de-ddwyrain. Ar ochr draw'r afon, mae Heol Newydd yn codi i'r de.

3.3.3 Mae'r tir isel gerllaw'r afon sydd yn bennaf heb ei ddatblygu yn agored i lifogydd, gydag amddiffynfeydd modern yn eu lle. Mae gan yr ardaloedd agored ar ochr orllewinol yr ardal gadwraeth dopograffi lleol unigryw sy'n datgelu presenoldeb gweddillion archeolegol o dan dy ddaear, megis ardal y lawnt suddedig ger y barics.

## 3.4 GOLYGFEYDD

3.4.1 Mae'r strydoedd cul yng nghanol Caerllion yn nodedig am rwystro golygfeydd hirach ar draws yr ardal gadwraeth sy'n cael eu cyfyngu gan mwyaf i strydluniau gerllaw wedi'u sianelu gan adeiladau ar bob ochr hyd at bwynt lle mae stryd arall yn rhedeg ar eu traws. Mae hyn yn gwahodd symud trwy'r strydoedd a'r tu hwnt i'w cornelu a'u cyffyrdd di-ri'. Mae'r rhain yn niferus ac yn arbennig o bwysig lle mae adeiladau ar ochrau'r strydoedd sydd wedi'u nodi'n gyfranwyr cadarnhaol ac yn adeiladau rhestredig, megis:

- Ar hyd ochr ogledd-orllewinol Goldcroft Common;
- Wrth symud ar hyd Stryd Norman;
- Wrth symud ar hyd Stryd Backhall, yn enwedig wrth y gyffordd â Heol yr Eglwys;
- Wrth edrych tua'r de-orllewin i lawr Stryd yr Amgueddfa;
- Wrth symud lan ac i lawr y Stryd Fawr;
- Wrth edrych i lawr Cross Street tuag at y gyffordd â'r Stryd Fawr;
- Wrth symud ar hyd pen deheuol Stryd y Castell;
- Wrth symud ar hyd Lôn y Castell, yn benodol wrth edrych lan o'r pen gogledd-ddwyreiniol; ac
- Wrth edrych ar hyd Heol Isca o bob pen.

3.4.2 Ym mhen deheuol yr ardal gadwraeth, mae'r golygfeydd yn fwy agored gyda chyfres o fistâu panoramig dros yr afon a thuag at yr ardal wledig o'i hamgylch. Mae'r bont, yn benodol, yn galluogi golygfeydd tua'r gogledd a'r de, ac mae gan yr adeiladau ar hyd Heol Isca olygfa ddirwystr dros yr afon y tu allan i'r ardal gadwraeth tuag at Sir Fynwy.



*Ffotograff 1: Wrth edrych dros yr afon o'r Hanbury Arms*



*Ffotograff 2: Wrth edrych tua'r dwyrain o'r bont draw i Sir Fynwy*



*Ffotograff 3: Wrth edrych lan Lôn y Castell o'i phen gogledd-ddwyreiniol*



*Ffotograff 4: Wrth edrych lan Stryd y Castell gyda wal y Mynde ar y chwith*




*Ffotograff 5: Strydlun Heol Isca wedi'i sianelu gyda Chaerllion yn y cefndir pell*



*Ffotograff 6: Golygfa glir o'r slipffordd o ochr ddeheuol yr afon*

[MAE'R DUDALEN HON WEDI'I GADAEL YN WAG YN FWRIADOL]




*Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi (h) Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Dinas Casnewydd. 100024210 (2018).*

[MAE’R DUDALEN HON WEDI’I GADAEL YN WAG YN FWRIADOL]

## 3.5 CYFLUNIAD A CHYFEIRIAD SYMUDIAD

3.5.1 Mae gan yr ardal gadwraeth ddau barth cymeriad gwahanol sy'n cael eu cysylltu gan y bont: craidd Caerllion ar ochr ogleddol yr afon, ac Ultra Pontem ar yr ochr ddeheuol. Mae canol Caerllion yn fwy cryno a threfol ei natur gyda rhwydwaith o strydoedd gwahanol, ond mae Ultra Pontem yn dawelach gyda dyrnaid yn unig o heolydd, yn debycach i lonydd pentref.

3.5.2 Ceir y rhan fwyaf o ddatblygiad adeiledig Caerllion o fewn y polygon sydd wedi'i ffurfio gan y Stryd Fawr, Stryd y Castell a Stryd y Felin. Broadway, y Stryd Fawr a Lodge Road yw'r llwybrau hanesyddol i mewn i'r gaer Rufeinig sydd wedi goroesi. Gellir gweld siâp y gaer yn glir o hyd yn archeoleg y dref ond mae wedi ystumio ychydig yng nghynllun y dref erbyn hyn o ganlyniad i ddatblygiad sylweddol yn yr Oesoedd Canol ac yn ddiweddarach.

3.5.3 O fewn y polygon sy'n amgylchynu canol Caerllion, mae patrwm y strydoedd yn nodweddiadol o ganoloesol: afreolaidd a chul, gyda llawer o lwybrau tarw ac aleau. Mae cyffyrdd llydan hefyd yn elfen nodweddiadol yng nghanol yr ardal gadwraeth; er enghraifft, cyffordd Heol yr Eglwys â Stryd Backhall, a Stryd Backhall â'r Stryd Fawr. Oherwydd rhwydwaith canoloesol cymhleth y strydoedd, mae angen system unffordd o amgylch prif lwybr cylchol y dref, gyda thair mynedfa yn ei phen gogleddol (Lodge Road, Heol yr Orsaf a Heol Wysg) ac un yn unig yn ei phen deheuol, dros y bont. Mae Stryd yr Amgueddfa a Stryd Norman hefyd yn unffordd er mwyn hwyluso llif y traffig.

3.5.4 Mae is-ardal o'r ardal gadwraeth yn fforchio o'r Stryd Fawr dros Bont Caerllion i gynnwys yr ardal ar wahân a adwaenid yn hanesyddol fel Ultra Pontem (yn llythrennol, 'dros y bont'). Heol Isca oedd y ffordd ddynesu wreiddiol o'r de i'r bont sydd wedi diflannu erbyn hyn dros Afon Wysg i Gaerllion; mae bellach yn llwybr unffordd sy'n cyfeirio traffig oddi wrth yr afon. Mae Heol Newydd o'r 19eg ganrif yn cydredeg â Heol Isca, gan ffurfio hirsgwar gyda datblygiad ar dair ochr, ac mae'n dramwyfa gerbydol brysurach.



*Ffotograff 7: Y gyffordd lydan iawn ger Heol yr Eglwys a Stryd Backhall*



*Ffotograff 8: Strydlun cul Heol Isca*

## 3.6 CYMERIAD PENSAERNÏOL

3.6.1 Nid oes unrhyw arddull pensaernïol blaenllaw unigol yn yr ardal gadwraeth; fodd bynnag, mae arddull ‘foneddigaidd’ gyffredinol yn gyffredin. Mae hyn yn golygu bod llawer o’r adeiladau wedi’u haddurno’n syml â chydbwysedd cyfrannol ac fel arfer maent yn weddol fach o ran maint. O ystyried hanes hir datblygiad adeiledig yng nghanol Caerllion, mae’n debygol bod adeiladau hŷn yn goroesi y tu ôl i flaenau sydd fel arfer o’r 18fed ganrif a’r 19eg ganrif. Mae nodweddion allanol pensaernïaeth foneddigaidd yn cynnwys:

- Ffenestri rhythmig, yn aml gyda ffenestri’r llawr uchaf wedi’u gosod yn uchel o dan y bondo;
- Rendrad lliw golau;
- Dau lawr;
- Cynllun teras;
- Toeon llechi ar oleddf â chyrn simnai brics; a
- Addurniad ychwanegol o bryd i’w gilydd wedi’i ysbrydoli gan arddulliau clasurol (e.e. fframiau ffenestri).

3.6.2 Yn Ultra Pontem, mae’r cymeriad boneddigaidd yn parhau. Yma mae ffenestri dormer hefyd yn gyffredin i fanteisio ar y golygfeydd dros yr afon.

3.6.3 Mae nodweddion pensaernïol eraill, sy’n llai cyffredin, yn cynnwys estyll tywydd yn ogystal â fframiau drysau a ffenestri wedi’u hysbrydoli gan arddulliau clasurol. Fel arfer mae gan adeiladau annomestig, megis tafarnau a siopau, gymeriad traddodiadol.



*Ffotograff 9: Pâr o dai teras ‘boneddigaidd’, gan ddangos cymesuredd a dimensiynau cytbwys*



*Ffotograff 10: Enghraifft o estyll tywydd*




*Ffotograff 11: Blaen siop traddodiadol, gyda phlinth uchel o dan y ffenestr a ffasgia dirodres uwchben*




*Ffotograff 12: Y Red Lion ar Stryd Backhall, gydag arwydd siglo traddodiadol a llythrennau unigol wedi’u hatodi’n uniongyrchol ar y gweddlun*

3.6.4 Terasau sydd fwyaf cyffredin ar hyd a lled yr ardal gadwraeth sy'n nodweddiadol o anheddiad a ddatblygodd yn ystod yr Oesoedd Canol. Mae terasau o'r un fath yn nodi un cyfnod o ddatblygiad adeiledig; mae gwahanol led ac uchder adeiladau'n nodi datblygiad graddol, sy'n benodol o gyffredin ar hyd y Stryd Fawr, Heol Isca a phrif lwybrau hanesyddol eraill yng Nghaerllion. Fel arfer mae'r brif fynedfa i'r adeiladau hyn yn uniongyrchol o'r stryd, yn hytrach na bod ymhellach yn ôl y tu ôl i ardd flaen neu ddreif. Yn aml mae terasau diweddarach yn cynnwys elfennau sy'n nodweddiadol o ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, megis ffenestri bae ar ogwydd a gerddi blaen gweddol fach. Mae'r cyrn simnai rhythmig ar hyd terasau'r ardal gadwraeth yn torri ar draws y llinell doeon ac yn ychwanegu amrywiaeth at y toeon. Toeon llechi ar oleddf yw'r toeon gan amlaf, ond mae gan rhai o'r terasau diweddarach doeon llechi talcennog.

3.6.5 Mae hanes Rhufeinig Caerllion yn elfen allweddol o'r hyn sy'n ei gwneud yn bwysig, hyd yn oed os nad yw'n amlwg ar unwaith yn yr amgylchedd adeiledig heddiw. Er nad oes unrhyw adeiladau Rhufeinig yn sefyll, mae cymeriad milwrol nodedig i'r Stryd Fawr, gan adlewyrchu hanes Caerllion fel caer Rufeinig. Mae arddull Friwtalaidd yr amgueddfa, y waliau caeraidd a'r nodweddion castellog yn arbennig yn cyfleu hyn. Y Stryd Fawr hefyd yw'r lle saif gan amlaf y nifer bach o adeiladau mwy sylweddol yn yr ardal gadwraeth; fel arall, mae'r adeiladau o faint domestig gan mwyaf. Mewn rhai o'r adeiladau hyn a oedd â statws uwch yn y gorffennol, mae modd gweld o hyd gaeadau mewnol yn y ffenestri, fel y byddai'n wir yn y gorffennol. Mae hyn yn ychwanegu mwy o gymeriad ac ymdeimlad o hanes i'r strydlun.




*Ffotograff 13: Gwahanol led ac uchder adeiladau yn ffurfio'r terasau ar Stryd Backhall*




*Ffotograff 14: Grŵp o derasau o ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif*

3.6.6 Fel sy'n gyffredin ar draws Casnewydd a De Cymru'n gyffredinol, mae swm sylweddol o garreg Pennant wedi'i ddefnyddio fel deunydd adeiladu. Mae hyn yn benodol o gyffredin mewn waliau terfyn, weithiau wedi'i chyfuno ag addurniad brics, a hon yw'r prif ddeunydd adeiladu y tu ôl i weddluniau wedi'u rendro. Roedd hefyd yn gyffredin i'r garreg hon gael ei hailddefnyddio o adeiladau hŷn ac, efallai, ei 'chwarelu' o'r safleoedd archeolegol yng Nghaerllion, gan olygu y gallai adeilad sy'n ymddangos tua 100 oed gynnwys darnau o waith carreg sydd bron yn 2,000 oed.

3.6.7 Mae canol Caerllion hefyd yn nodedig am nifer o waliau terfyn uchel amlwg, gan gynnwys ar y Stryd Fawr a Lôn y Castell. Mae waliau terfyn isel yn llai cyffredin gan fod adeiladau gan mwyaf yn agor yn uniongyrchol i'r stryd; lle maen nhw'n bodoli, yn aml maent wedi'u hategu gan reiliau ychwanegol, yn benodol o amgylch mynwentydd eglwysi.



*Ffotograff 16: Rhan o wal carreg Pennant â bylchfuriau, gan ddangos deunydd adeiladu lleol a chyfrannu at gymeriad milwrol rhan ganolog y Stryd Fawr*



*Ffotograff 15: Caeadau mewnol y gellir eu gweld o'r stryd*




*Ffotograff 17: Gwaith carreg wedi'i ailddefnyddio mewn wal derfyn, gan gynnwys carreg felin a blociau sgwarog sy'n debygol o fod wedi cael eu paratoi ar gyfer adeiledd â statws uwch o ystyried y medr a'r amser y byddai eu hangen i orffen carreg i'r safon hon*

### 3.6.8 Cymeriad Pensaernïol fesul Stryd

*Mae gan y strydoedd nad ydynt wedi'u nodi yn y rhestr ganlynol adeiladau modern gan mwyaf.*

| | |
|---|---|
| **3.6.9 Stryd Arthur:** | Strydlun cytbwys gyda therasau ar bob ochr sydd â chymesuredd boneddigaidd ond heb unrhyw addurniad pensaernïol. Mae garejys modern a datblygiad mewnlenwi yn y pen deheuol pellaf. |
| **3.6.10 Ashwell:** | Bythynnod teras traddodiadol ar un ochr â rendradau lliwgar. Bythynnod ar wahân yn sefyll ychydig yn ôl o'r ffordd ar yr ochr gyferbyn. |
| **3.6.11 Stryd Backhall:** | Adeiladau teras o amrywiol feintiau, wedi'u rendro gan amlaf mewn lliw golau ac â chymesuredd boneddigaidd. Yn wynebu'n uniongyrchol i'r stryd gyda rhai ardaloedd o ddatblygiad mewnlenwi modern. |
| **3.6.12 Broadway:** | Mae adeiladau'n crynhoi yn y pen gogleddol ac yn fodern gan mwyaf heblaw am y porth a'r porthdy sy'n arwain i gefn y Priordy. |
| **3.6.13 Heol Bulmore:** | Bythynnod traddodiadol o feintiau ychydig yn wahanol yn y pen gogledd-ddwyreiniol. Tai maestrefol diweddarach o'r canol i'r pen de-orllewinol, ychydig yn ôl o'r ffordd. Coed a llwyni aeddfed ar ochr gyferbyn y ffordd. |
| **3.6.14 Teras Carlton:** | Amrywiaeth o dai o ddechrau'r 20fed ganrif ac yn ddiweddarach, gan gynnwys grŵp o derasau â baeau blaenllaw ar ogwydd gyda golygfeydd dros yr amffitheatr a'r caeau i'r de. |
| **3.6.15 Lôn y Castell:** | Tramwyfa gul gyda datblygiad modern ar yr ochr orllewinol a wal flaenllaw ar hyd yr ochr ddwyreiniol. |
| **3.6.16 Stryd y Castell:** | Grŵp o derasau grisiog sy'n sefyll ychydig yn ôl y tu ôl i erddi blaen muriog. Terasau traddodiadol yn wynebu'r stryd yn uniongyrchol yn y pen deheuol. |
| **3.6.17 Heol yr Eglwys:** | Adeiladau domestig mewn amrywiaeth o arddulliau, gan gynnwys datblygiad mewnlenwi modern a bythynnod traddodiadol. |
| **3.6.18 Cold Bath Road:** | Tai modern gan mwyaf, ac eithrio'r bwthyn carreg Pennant yn y gornel ogledd-orllewinol. |
| **3.6.19 Goldcroft Common:** | Mathau amrywiol o adeiladau, ond mae'r rhan fwyaf yn weddol fach, yn wynebu'r stryd yn uniongyrchol a chanddynt arddull foneddigaidd. |

| | |
|---|---|
| **3.6.20 Y Stryd Fawr:** | Cyfuniad o adeiladau mwy ac adeiladau cyhoeddus mewn sawl arddull, gydag adeiladau teras llai o'r gyffordd â Stryd Backhall ymlaen. |
| **3.6.21 Heol Isca:** | Stryd gul gydag adeiladau teras o wahanol gyfnodau a mathau o arddull draddodiadol/foneddigaidd. Rhai addurniadau pensaernïol. Nid oes unrhyw adeiladau ar hyd yr ochr ddwyreiniol ar hanner gogleddol yr heol, sy'n galluogi golygfeydd dros Afon Wysg. |
| **3.6.22 Heol Lulworth:** | Grwpiau o derasau o ddechrau i ganol yr 20fed ganrif ychydig yn ôl o'r ffordd y tu ôl i ddreifiau/erddi blaen hir. |
| **3.6.23 Stryd y Felin:** | Terasau â baeau ar ogwydd o ddechrau'r 20fed ganrif ac yn ddiweddarach sydd yma gan mwyaf. Mae rhai adrannau o fythynnod teras traddodiadol yn wynebu'r stryd yn uniongyrchol. |
| **3.6.24 Stryd yr Amgueddfa:** | Mae'r eglwys a'r amgueddfa yn y pen de-orllewinol yn gwrthgyferbynnu â chasgliad o adeiladau domestig o wahanol, gyfnodau yn y pen gogledd-ddwyreiniol. |
| **3.6.25 Heol Newydd:** | Strydlun gwyrdd gan mwyaf gyda thai pâr o ddechrau'r 20fed ganrif yn y pen deheuol ac adeilad traddodiadol mwy crand yn y pen gogledd. Mae'r grŵp ym mhen gogleddol pellaf yr heol (tolltai a thafarn) yn nodi'r fynedfa i Ultra Pontem ac yn cyfrannu at gymeriad pentref traddodiadol. |
| **3.6.26 Stryd Norman:** | Rhes o fythynnod teras wedi'u rendro sy'n wynebu pen gogleddol culach y stryd yn uniongyrchol, gyda strydlun mwy llydan a datblygiad mewnlenwi modern yn y pen deheuol. |
| **3.6.27 Old Hill:** | Strydlun gwyrdd yn bennaf gyda grwpiau o fythynnod traddodiadol ynghlwm wrth y llechwedd y tu ôl i waliau terfyn blaen. |
| **3.6.28 White Hart Lane:** | Llwybr trwodd rhwng y Stryd Fawr a Theras Carlton. Mae gweddluniau coch a thai allan hanesyddol eiddo'r Stryd Fawr yn flaenllaw yma. |

## 3.7 MANNAU AC ARDALOEDD CYHOEDDUS

3.7.1 Mae'r mannau gwyrdd ar draws yr ardal gadwraeth fel arfer yn cyfateb i safleoedd henebion cofrestredig (er nad yw pob heneb gofrestredig yn fan gwyrdd). Mae'r rhain yn cynnwys yr ardal gyhoeddus ffurfiol gerllaw neuadd y dref, y maes trionglog yn Goldcroft Common, ardal y barics a chae'r amffitheatr. Mannau agored a gynhelir yn dda yw'r rhain sy'n amwynderau cyhoeddus a gweledol. Mae mannau gwyrdd preifat sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal gadwraeth yn cynnwys y coed aeddfed sydd i'w gweld dros wal y Mynde a'r mannau gwyrdd ar y ddwy ochr i Heol Newydd yn Ultra Pontem. Mae'r gyfran uchel o dirwedd werdd a gwledig o gwmpas Ultra Pontem yn cryfhau ei naws bentrefol nodweddiadol ymhellach o'i chymharu â thrwch adeiladau canol Caerllion.

3.7.2 Mae nodweddion strydlun ychwanegol ar draws yr ardal gadwraeth hefyd yn cyfrannu at ei chymeriad hanesyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Goleuadau stryd ar ffurf llusernau – er enghraifft, ar y Stryd fawr – sy'n adlewyrchu maint a chymeriad y stryd gulach, o'u cymharu â'r goleuadau stryd modern sydd yn aml yn rhy dal ac yn crymu tuag i mewn gan amharu ar olygfeydd;
- Arwyddion stryd haearn bwrw wedi'u atodi wrth weddluniau adeiladau;
- Blychau post hanesyddol y gellir eu hadnabod gan fonogram y teyrn a oedd ar yr orsedd pan gawsant eu gosod;
- Ciosgau ffôn coch traddodiadol, mae nifer ohonynt yn rhestredig;
- Rhai rhannau prin lle mae arwyneb coblog y stryd wedi goroesi;
- Rhannau o balmant ag wyneb llawrlechi Pennant mawr, sy'n nodweddiadol o'r ardal ehangach; a
- Darnau cerfluniol, gan gynnwys placiau mewnosod sy'n nodi lleoliadau'r pyrth i mewn i'r gaer Rufeinig.




Ffotograff 18: Plac coffáu Porth y Gogledd ar Lodge Road




Ffotograff 19: Enw stryd wedi'i fowntio ar ochr adeilad



Ffotograff 20: Ardal o gobls sydd wedi osgoi cael eu gorchuddio â tharmac



Ffotograff 21: Y Rhyfelwr Celtaidd a'r ciosg ffôn rhestredig ar Heol Isca



Ffotograff 23: Blwch llythyrau o oes Victoria



Ffotograff 22: Llawrlechi Pennant ar balmant y Stryd Fawr

## 4.1 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARBENNIG

4.1.1 Mae gan Gaerllion werth hanesyddol sylweddol fel safle un o dair caer parhaol yn unig ym Mhrydain Rufeinig. Yn gysylltiedig â hyn mae gwerth archeolegol uchel iawn y dref a'r cyffiniau; cydnabyddir rhan helaeth o hyn yn yr henebion cofrestredig niferus sy'n gyffredin ar draws canol Caerllion. Er bod y treflun sy'n bodoli heddiw yn dangos olion datblygiad canoloesol a diweddarach gan mwyaf, mae presenoldeb y Rhufeiniaid yng Nghaerllion yn glir ei weld o hyd ac yn creu ardal gadwraeth unigryw sy'n cydnabod hanes cyfoethog y lle a'i archeoleg dan y ddaear, yn ogystal â'r amgylchedd adeiledig.

4.1.2 Mae gwerth pwysigrwydd hanesyddol ac archeolegol yn cael ei gadarnhau gan y nifer fawr o ymwelwyr sy'n dod i edmygu, archwilio a dysgu o safleoedd Rhufeinig ac amgueddfa'r dref, lle mae hanes yn dod yn fwy byw. Mae mannau allanol megis y barics a'r amffitheatr yn parhau'n boblogaidd gyda phreswylwyr lleol ac yn creu mannau amwynder. O ganlyniad mae agwedd gymunedol gref iawn i ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth.

4.1.3 Mae sawl haen hanesyddol i amgylchedd adeiledig Caerllion. Mae'r cyfle i ddeunyddiau adeiladu Rhufeinig sylweddol oroesi mewn adeiladau cymharol ddiweddar yn nodedig ac yn anghyffredin iawn mewn enghreifftiau mor niferus. Er y collwyd y treflun Rhufeinig geometrig, gellir gweld yn glir y cyfluniad canoloesol a ddatblygodd wedyn ac mae'n creu casgliad afreolaidd a diddorol o strydluniau a golygfeydd. Caiff hyn ei ategu gan y defnydd amrywiol o arddull bensaernïol foneddigaidd a datganiadau pensaernïol mwy beiddgar a wnaed ar y Stryd Fawr yn benodol.

4.1.4 Mae'r ffaith bod y cymeriadau trefol a phentrefol cyferbyniol wedi cael eu cadw yng nghanol Caerllion ac Ultra Pontem hefyd yn nodedig ac yn dangos sut ledaenodd yr anheddiad o'i ganol gwreiddiol. Mae'r berthynas ag Afon Wysg a'r dirwedd o'i hamgylch, a oedd yn un o'r prif resymau dros sefydlu anheddiad yma'n wreiddiol, yn arbennig o amlwg yn Ultra Pontem lle mae nifer o adeiladau wedi'u gosod a'u dylunio i edrych yn syth i'r gogledd. Mae'r slipffyrdd a welir ar lan yr afon islaw The Hanbury Arms hefyd yn cyfeirio yn ôl i'r gweithgarwch llongau yng Nghaerllion, er nad yw hyn yn amlwg ar unwaith nac yn hysbys iawn.

4.1.5 Yn gyffredinol, mae diddordeb arbennig Ardal Gadwraeth Caerllion yn deillio'n bennaf o'i hanes Rhufeinig sylweddol a phwysig, ac yn ail o'i datblygiad canoloesol a diweddarach sydd, ar y cyd â'r elfennau Rhufeinig sy'n parhau, wedi creu'r treflun unigryw sydd i'w weld heddiw. Mae'r cyfuniad hwn o ddau linyn pwysig o hanes yn rhoi i Gaerllion ei chymeriad unigryw.

## 4.2 ARCHWILIAD ASEDAU TREFTADAETH

4.2.1 Mae Ardal Gadwraeth Caerllion, sy'n ased treftadaeth ei hun, yn cynnwys nifer o asedau treftadaeth unigol. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau rhestredig a rhai nad ydynt yn rhestredig. Mae'r adran hon o'r arfarniad yn amlinellu'r asedau treftadaeth yn yr ardal gadwraeth, gan nodi'r asedau treftadaeth unigol neu grwpiau ohonynt a pham maent yn bwysig. Ceir rhestr lawn o asedau treftadaeth yn Atodiad A.

4.2.2 Cynhaliwyd yr archwiliad trwy archwiliadau gweledol o dramwyfeydd cyhoeddus yn unig. Y bwriad yw nodi'r asedau treftadaeth hyn, nid rhoi asesiad cynhwysfawr a manwl o bob ased unigol. Ni ddylid rhagdybio bod hepgor unrhyw wybodaeth am nodwedd neu adeilad yn golygu nad yw'r nodwedd neu'r adeilad hwnnw'n bwysig. Dylid cynnal asesiad manwl o bwysigrwydd adeilad neu safle yn yr ardal gadwraeth bob amser cyn cynnig unrhyw newid.

### 4.2.3 Adeiladau Rhestredig

4.2.4 Caiff adeiladau rhestredig eu diogelu dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a chânt eu dynodi am eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Caiff pob adeilad rhestredig yng Nghymru ei restru yn ôl argymhelliad Cadw a chedwir y manylion gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae rhestru'n amrywio o Radd 1 (y lefel uchaf) i Radd II* ac yna i Radd II (y lefel fwyaf cyffredin).

4.2.5 Nid yw rhestru statudol yn cyfateb i orchymyn cadw er mwyn atal newid. Fodd bynnag, mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig i addasu adeiladau rhestredig, sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol wneud penderfyniadau sydd wedi cael eu cyfeirio gan ddealltwriaeth o'r adeilad neu bwysigrwydd y safle. Mae'n bwysig bod polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol hefyd yn cydnabod y gall newidiadau i adeiladau neu safleoedd eraill yn lleoliad adeilad rhestredig effeithio ar ei ddiddordeb arbennig.

### 4.2.6 Henebion Cofrestredig

4.2.7 Caiff henebion cofrestredig eu gwarchod dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, fel y'i diwygiwyd yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae'r rhain yn cynnwys adeileddau sydd wedi dadfeilio'n rhannol neu'n llwyr, yn ogystal â safleoedd archeolegol dan y ddaear. Ffurf hynaf Prydain ar warchod treftadaeth yw cofrestru henebion a bydd angen caniatâd gan Cadw, ar ran Llywodraeth Cymru, i wneud unrhyw newidiadau i heneb gofrestredig. Bydd angen Caniatâd Heneb Gofrestredig ar gyfer unrhyw safleoedd sy'n gofrestredig a hefyd yn cynnwys adeilad rhestredig os cynigir gwneud unrhyw newid iddynt; mae hyn oherwydd bod Caniatâd Heneb Gofrestredig yn drech na Chaniatâd Adeilad Rhestredig.

### 4.2.8 Cyfranwyr Cadarnhaol


4.2.9 Mae cyfrannwr cadarnhaol yn adeilad, yn adeiledd neu'n nodwedd sy'n ychwanegu'n fuddiol at gymeriad cyffredinol yr ardal leol. Mae hyn yn wir am y rhan fwyaf o adeiladau mewn ardal gadwraeth. Bydd maint cyfraniad cadarnhaol adeilad yn dibynnu i raddau helaeth ar gyfanrwydd ei ffurf hanesyddol ac nid yw'n gyfyngedig i'w brif weddlun; er enghraifft, gall toeon ac ystlysluniau/cefnluniau oll wneud cyfraniad cadarnhaol. Gall adeiladau modern wneud cyfraniad cadarnhaol hefyd lle maent wedi cael eu dylunio'n sensitif i gydweddu â'u lleoliad.

4.2.10 Dyma rai meini prawf ar gyfer nodi cyfranwyr cadarnhaol:


- Cysylltiadau â phenseiri nodedig neu ffigurau hanesyddol nodedig eraill;
- Lleoliad a phresenoldeb yn y strydlun;
- Defnydd o ddeunyddiau, motiffau pensaernïol neu addurniadau nodweddiadol eraill;
- Perthynas ag adeiladau cyfagos, boed honno'n ffisegol neu'n hanesyddol; a
- Defnydd hanesyddol.

4.2.11 Yn Ardal Gadwraeth Caerllion, mae cyfle i rai o'r cyfranwyr cadarnhaol sydd wedi'u nodi wella cymeriad yr ardal gadwraeth ymhellach ar ôl gwaith atgyweirio a gosod ymyriadau sensitif yn lle rhai modern nad oeddent wedi cael eu hystyried yn ofalus.

[MAE'R DUDALEN HON WEDI'I GADAEL YN WAG YN FWRIADOL]




*Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi (h) Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Dinas Casnewydd. 100024210 (2018).*




*Reproduced from Ordnance Survey mapping with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Newport City Council. 100024210 (2018).*

## 4.3 PROBLEMAU A CHYFLEOEDD

### 4.3.1 Cyflwr

4.3.2 Yn gyffredinol, mae'r adeiladau yn yr ardal gadwraeth mewn cyflwr da. Fodd bynnag, mae nifer o broblemau parhaus sy'n difrodi adeiladau (neu a allai achosi difrod) ac sydd, o ganlyniad, yn amharu ar yr hyn sy'n gwneud yr ardal gadwraeth yn arbennig.

4.3.3 Mae ambell achos lle mae'r rendrad allanol wedi cael ei orchuddio â haen o lwydni a thyfiant algaidd. Fel arfer, mae hyn yn digwydd ar y talcenni a'r cyrn simnai, ond nid yn unig yn y rhannau hyn. Mae agosrwydd canopïau coed at adeilad yn gallu achosi problemau; fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bob tro yng Nghaerllion ac mae enghreifftiau o adeiladau nad ydynt dan gysgod coed lle mae problemau o hyd gyda thyfiant llwydni allanol. Mae'n debygol mai achos y broblem hon yw'r defnydd o rendrad anghywir neu ddiffyg glanhau ac atgyweirio mewn golch sy'n athraidd.

4.3.4 Problem arall sy'n dod yn fwyfwy cyffredin ar draws yr ardal gadwraeth yw tynnu'r rendrad yn llwyr i ddinoethi'r gwaith brics neu garreg y tu ôl iddo. Mae'r arfer hwn yn gadael waliau allanol adeiladau hanesyddol yn agored i ddifrod; er enghraifft, gan y tywydd neu effaith fecanyddol. Yn y gorffennol roedd rendrad yn cael ei osod i ddiogelu ffabrig yr adeiladau hyn a dylid ei gynnal i sicrhau eu cyflwr tymor hir, er bod modd gwerthfawrogi bod yr effaith wedi'i dinoethi yn ddeniadol.

4.3.5 Yn yr un modd, mae nifer o achosion lle mae'r paent ar nodweddion saernïaeth, yn benodol fframiau ffenestri, wedi'i dynnu i'w gadael yn noeth. Y driniaeth hanesyddol briodol i'r nodweddion hyn yw iddynt gael eu paentio mewn paent gwyn neu lliw golau sy'n seiliedig ar olew, a fydd yn diogelu'r pren rhag effaith y tywydd. Fel yn achos tynnu rendrad allanol, mae gadael y deunydd hwn yn noeth yn ei wneud yn agored i ddirywio.

4.3.6 Yn ogystal â thynnu rendrad amddiffynnol, mae rendrad gro chwipio hefyd yn broblem. Mae'r math hwn o drin waliau yn seiliedig ar sment ac mae'n anghydnaws â gofynion adeiladau hanesyddol i 'anadlu' ac allyrru/amsugno lleithder. Mae deunyddiau sy'n seiliedig ar sment yn effeithio ar allu adeilad i reoleiddio lefelau lleithder ac yn gallu arwain at damprwydd mewnol, staenio a difrod arall.

4.3.7 Mae'r brif wal uchel ar hyd Lôn y Castell bron â chael ei hailbwyntio'n llwyr trwy ddefnyddio techneg ruban sy'n codi'r morter o'r garreg. Mae'r math hwn o bwyntio'n effeithio ar allu'r garreg i allyrru dŵr a allai achosi staenio, dilaminadu (lle mae arwyneb y garreg yn fflochennu), asglodi (lle mae arwyneb y garreg yn torri ymaith mewn darnau) ac, yn y pen draw, ddifrod i gyflwr y wal.

4.3.8 Hefyd mae rhannau helaeth o dyfiant eiddew i fyny waliau allanol. Fel arfer, mae llystyfiant fel eiddew yn gwreiddio yn y deunyddiau adeiladu mwy meddal, yn aml mewn rendrad allanol neu'r morter a ddefnyddir ar gyfer pwyntio. Mae'r planhigyn yn ymwthio'n ddyfnach wrth iddo dyfu, gan wthio deunyddiau adeiladu o'u lle a bygwth cyfanrwydd y wal yr effeithir arni. Mae planhigion sydd wedi gwreiddio yn y ddaear ac yn dringo ac sydd wedi'u hyfforddi'n gywir i ddringo i fyny gwifrau sydd wedi'u hoelio yn yr uniadau morter yn addas ac yn aml gallant wneud cyfraniad cadarnhaol.



Ffotograff 24: Llwydni allanol ar wal pen talcen noeth



Ffotograff 25: Llwydni a thyfiant algaidd ar gorn simnai



Ffotograff 26: Gwaith pwyntio rhuban eithafol yn Lôn y Castell, sy'n niweidiol i gyflwr y garreg



Ffotograff 27: Gwaith carreg a phren noeth



Ffotograff 28: Tyfiant niweidiol eiddew heb ei hyfforddi

### 4.3.9 Nodweddion sy'n Amharu

4.3.10 Dwysedd uchel y traffig ar hyd y system unffordd yng Nghaerllion yw un o'r prif nodweddion sy'n amharu. Mae hyn yn arwain at ffyrdd swnllyd, yn benodol ar oriau brig, a phroblemau cysylltiedig gydag ansawdd aer. Caiff hyn ei waethygu gan yr effaith geunant sy'n cael ei hachosi gan y strydoedd cul a'r waliau uchel. Gallai hyn amharu ar yr amgylchedd adeiledig: staenio allanol wedi'i achosi gan fygdarth cerbydau, neu ddifrod mecanyddol gan gerbydau mawr.

4.3.11 Mae agosrwydd Afon Wysg i Gaerllion ac Ultra Pontem yn bwysig o ran ei chyfraniad at eu datblygiad hanesyddol. Fodd bynnag, mae'r afon yn dueddol o ddioddef llifogydd, yn benodol ar ei hochr ddeheuol. I atal hyn, mae wal lifogydd fodern wedi cael ei chodi. Er nad nodwedd ddeniadol yw hon, mae ei budd o ran amddiffyn yr adeiladau a'r nodweddion hanesyddol yn yr ardal lle mae perygl llifogydd yn troi'r fantol yn erbyn y ffaith ei bod yn amharu ar yr ardal gadwraeth.

4.3.12 Mae pwysau i droi gerddi blaen yn safleoedd parcio oddi ar y ffordd a gallai hyn amharu ar yr ardal gadwraeth hefyd. Prin mae'r cyfleoedd i hyn ddigwydd o ystyried ei bod yn nodweddiadol i'r terasau wynebu'r stryd yn uniongyrchol; ond o ganlyniad, mae colli'r ychydig erddi blaen sydd yn yr ardal gadwraeth wedi cael effaith amlwg ar yr ardal gadwraeth gan fod adeiladau domestig yn colli eu lleoliad a'u cyd-destun gwreiddiol. Cydnabyddir hefyd bod parcio ar y stryd yn nodwedd sy'n amharu, yn benodol ar dramwyfeydd culach yr ardal gadwraeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfiawnhau tynnu cwrtilau blaen.

4.3.13 Mae'r nodweddion sy'n amharu o fewn yr ardal gadwraeth yn dueddol o fod yn fân ond, gyda'i gilydd neu heb eu rheoli, maent yn effeithio'n weladwy ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ffenestri uPVC newydd lle mae unedau amhriodol wedi cael eu gosod, gan amharu ar werth esthetig yr adeilad unigol a'r strydlun ehangach. Y fframiau mwy trwchus, y barrau gwydr ffug a'r mecanweithiau agor gwahanol yw'r prif elfennau sy'n amharu lle mae'r rhain wedi'u gosod. Mae gwahanol arddulliau ar deras sydd fel arall yn unffurf yn amharu'n fawr, felly hefyd ffenestri sydd wedi'u hailosod ymhellach ymlaen o fewn eu cil, yn hytrach na chael eu gosod yn ôl fel yn y gorffennol.
- Erialau teledu a dysglau lloeren sydd ynghlwm wrth gyrn simnai neu brif weddluniau. Mae'r rhain yn ddiolwg, gan amharu ar gymeriad traddodiadol yr adeiladau a'r toeon, ac maent yn aml yn gadael gwifrau'n ymlusgo ar draws prif weddluniau.
- Adeiladau wedi'u paentio mewn lliwiau beiddgar, annhraddodiadol sy'n amharu ar unffurfiaeth y rendradau lliw golau sy'n gyffredin ar draws yr ardal gadwraeth.
- Ffliwiau echdynnu ar gyfer ceginau masnachol mewn adeiladau a oedd yn ddomestig yn y gorffennol. Lle gellir gweld y nodweddion hyn yn glir yn y strydlun, maent yn amharu ar ei gymeriad hanesyddol.
- Nodweddion diogelwch sy'n oramlwg ac yn amharu ar werth pensaernïol llawer o adeiladau, yn benodol adeiladau cyhoeddus mwy sylweddol megis yr amgueddfa a'r ysgol.



Ffotograff 29: Ffenestri dalennog traddodiadol ar y dde a ffenestri modern amhriodol yn eu lle ar y chwith



Ffotograff 30: Blwch larwm amlwg sy'n amharu ar weddlun sy'n ddeniadol fel arall

### 4.3.14 Cyfleodd i Wella

4.3.15 Mae cyfleoedd i wella yn yr ardal gadwraeth fel arfer yn canolbwyntio ar ymdrin â'r broblem sydd wedi'i nodi o ran cyflwr a nodweddion sy'n amharu.

4.3.16 Nid yw'n debygol y bydd nifer y coetsis sy'n cludo ymwelwyr i'r atyniadau Rhufeinig yng Nghaerllion yn lleihau heb drawsnewid y seilwaith yn sylweddol ar draws ardal ehangach. Wrth gydnabod hyn, gellid gwella'r maes parcio coetsis ar Broadway (yn amodol ar unrhyw effaith ar yr henebion) a hefyd roi cyfyngiadau ar adael peiriannau i redeg er mwyn lleihau lefelau llygredd.

4.3.17 Mae hanes Caerllion yn amlwg ar draws y dref gyfan a thros y bont i Ultra Pontem. Gellid cyfuno ymdrechion Cadw, Cyngor Dinas Casnewydd a grwpiau lleol i roi cynllun dehongli a chyfeirio o safon ar waith fel y gall ymwelwyr â Chaerllion ymgysylltu â'i hanes, yn hytrach na chanolbwyntio ar y prif atyniadau.

4.3.18 Mae swm sylweddol o fewnlenwi modern yng nghanol yr ardal gadwraeth, gan fanteisio ar y mannau sydd erioed wedi bod yn dir agored y tu ôl i'r adeiladau sy'n wynebu'r stryd. Yn amodol ar ddylunio, mae cyfle ar gyfer datblygiad newydd yn y mannau hyn.

4.3.19 O fewn y strydlun a'r ardaloedd cyhoeddus, mae cyfle newid y planwyr trefol am ddewisiadau eraill mwy traddodiadol sy'n cydweddu'n well â'r amgylchedd. Mae cyfleoedd eraill i dynnu tarmac lle mae'n gorchuddio mannau coblog, yn benodol lle mae hyn yn union gyfagos i adeilad lle nad oes llawer o ymwelwyr na thraffig.

4.3.20 Yng nghyffiniau Hanbury Close a glan yr afon ar bwys yr Hanbury Arms, mae cyfle i wneud yr ardal yn fwy deniadol trwy dirlunio gwell ac, o bosib, atgyfnerthu hyn â chynllun dehongli i esbonio mai dyma leoliad y bont wreiddiol a oedd yn cysylltu dwy ochr yr afon.

## 5.1 ADOLYGU'R FFIN

5.1.1 Estynnwyd ffin Ardal Gadwraeth Caerllion ym 1977, yr unig addasiad ers iddi gael ei dynodi ym 1970. Mae'n arfer gorau i adolygu ffiniau ardaloedd cadwraeth o dro i dro er mwyn sicrhau bod y rhesymau gwreiddiol am eu dynodi yn berthnasol ac yn amlwg o hyd. Cydnabyddir bod ffiniau yn hanesyddol wedi cael eu llunio'n rhy dynn neu'n afresymegol ac felly y gallai fod yn briodol i'w diwygio. Dylai adolygiad o'r ffin, yn ogystal ag unrhyw ganllaw ac asesiad ategol, gael ei gynnal bob pum mlynedd neu mewn ymateb i newid nodedig, gan gynnwys newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth.

5.1.2 Y diwygiadau a gynigir ar gyfer y ffin yn 2018 yw:

A Tynnu'r rhan fwyaf o'r cae agored rhwng yr amffitheatr a'r afon.
*Rheswm: Nid oes llawer o adeiladau yn yr ardal hon a byddai'n cael ei diogelu'n well o dan ddeddfwriaeth henebion cofrestredig.*

B Tynnu dau adeilad yn y gornel ogleddol.
*Rheswm: Nid yw'r rhain yn adlewyrchu cymeriad yr ardal gadwraeth.*


C Ychwanegu Tŷ Brodawel a'i diroedd.
*Rheswm: I gydnabod y cyfraniad a wneir at yr ardal gadwraeth gan y wal derfyn a chymeriad y tŷ.*

Ch Ychwanegu grŵp o adeiladau ar ochr ogleddol Stryd y Felin.
*Rheswm: I gydnabod eu cyfraniad at y strydlun a'u parhad o elfennau nodweddiadol.*

D Mân ailgyfluniad i'r ffin ger Hanbury Close.
*Rheswm: I alinio'r ffin â ffiniau'r lleiniau presennol.*

Dd Mân ailgyfluniad i ffin Heol Bulmore.
*Rheswm: I alinio'r ffin â ffiniau'r lleiniau presennol.*

[MAE’R DUDALEN HON WEDI’I GADAEL YN WAG YN FWRIADOL]




*Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi (h) Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Dinas Casnewydd. 100024210 (2018).*

[MAE’R DUDALEN HON WEDI’I GADAEL YN WAG YN FWRIADOL]

## 5.2 MESURAU RHEOLI YN SGIL DYNODI ARDAL GADWRAETH

5.2.1 Er mwyn diogelu a gwella'r ardal gadwraeth, rhaid i unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud gadw'r cymeriad a'r diddordeb arbennig sy'n gwneud yr ardaloedd hyn yn bwysig. Gallai fod angen caniatâd cynllunio a/neu Gydsyniad Ardal Gadwraeth er mwyn gwneud y gwaith. Diben mesurau rheoli statudol yw atal datblygu a allai gael effaith negyddol neu gronnol ar nodwedd bwysig. Gallai fod angen ceisio'r caniatâd angenrheidiol ar gyfer y gwaith canlynol:

- Dymchwel yn gyfan gwbl neu'n sylweddol adeiladau neu adeileddau (gan gynnwys waliau, pierau gatiau a simneiau);
- Gwaith ar goed â diamedr o 75mm neu fwy, wedi'i fesur 1.5m o lefel y pridd;
- Codi hysbysiadau ac arwyddion masnachol eraill; a
- Newid defnydd adeilad (e.e. o breswyl i fasnachol).

5.2.2 Gellid cyfyngu ar faint datblygiad a ganiateir hefyd (h.y. newidiadau a ganiateir heb fod angen caniatâd yr awdurdod lleol); er enghraifft, disodli ffenestri, addasu cladin neu osod dysglau lloeren. Gellid ceisio rheolaeth ychwanegol drwy Gyfarwyddiadau Erthygl 4, sy'n diddymu hawliau datblygiad a ganiateir yn benodol.

5.2.3 Nodir canllawiau ar ba ganiatâd sydd ei angen ar gyfer gwaith arfaethedig gan Polisi Cynllunio Cymru yn Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017; gweler Rhagor o Wybodaeth).

## 5.3 CANLLAWIAU CADWRAETH A DYLUNIO

5.3.1 Nid diben dynodiad ardal gadwraeth yw atal dylunio a datblygu newydd; yn hytrach, mae'n gweithredu proses lle mae unrhyw gynigion yn cael eu harchwilio'n fwy trylwyr er mwyn sicrhau bod diddordeb a chymeriad arbennig yr ardal yn cael eu diogelu, a bod unrhyw gyfleoedd i wella'r rhain yn cael eu cymryd. Mae egwyddorion dylunio newydd o fewn Ardal Gadwraeth Caerllion yn berthnasol ar draws sbectrwm eang: o fân fanylion pensaernïol i ddatblygiad newydd helaeth.

### 5.3.2 Blaenau Siopau

5.3.3 Nid yw Caerllion yn nodedig o fasnachol o ran ei chymeriad; fodd bynnag, mae grwpiau o siopau ar y Stryd Fawr ac yn agos iddi a bydd newid byrbwyll yn effeithio ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth.

5.3.4 Yn y dyfodol, efallai bydd Cyngor Dinas Casnewydd am lunio canllawiau dylunio blaenau siopau a fydd yn nodi dulliau priodol o adnewyddu ac atgyweirio unedau manwerthu hanesyddol fel y byddant yn gwella cymeriad Caerllion.

5.3.5 Dylid ystyried y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae blaen siop yn rhan o adeilad cyfan (efallai grŵp o adeiladau ar ffurf teras), nid rhywbeth ar wahân. Felly, mae angen i'w ddyluniad adlewyrchu arddull, cymesuredd ac addurniadau gweddill yr adeilad, yn benodol y gweddluniau uwchben ac i'r ochrau.
- Dylid cadw unrhyw nodweddion blaen siop hanesyddol sydd wedi goroesi a'u cynnwys mewn unrhyw gynllun newydd, yn hytrach na'u newid am rywbeth arall.

- Deunyddiau traddodiadol megis pren wedi'i baentio fydd yn gwella cymeriad hanesyddol yr adeiladau orau.
- Dylai ffasgiau fod yn gymesur â'r adeilad heb fod yn rhy fawr.
- Mae ffenestri gweddol fach â phlinthau oddi danynt, linteli a physt yn nodweddion traddodiadol a phriodol i'w cadw neu ailgyflwyno.
- Dylai dewis lliwiau blaen siop a'i arwyddion adlewyrchu cymeriad traddodiadol a hanesyddol y strydlun. Mae arlliw tawel yn well na lliwiau beiddgar.

### 5.3.6 Atgyweirio a Chynnal a Chadw

5.3.7 Mae gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn anochel gydag unrhyw adeilad neu safle, ni waeth beth fo'i hoedran. Fodd bynnag, o fewn ardal gadwraeth, mae'n arbennig o bwysig bod hyn yn cael ei wneud yn sensitif i ddiogelu ffabrig hanesyddol yr adeiladau a pharchu cymeriad sefydledig yr ardal ehangach.

5.3.8 Mae gwaith cynnal a chadw yn wahanol i waith atgyweirio gan ei fod wedi'i gynllunio ymlaen llaw – gweithgarwch rheolaidd â'r diben o leihau'r achosion lle bo angen gwneud gwaith adfer neu waith annisgwyl. Po uchaf yw'r lefelau gwaith cynnal a chadw, y lleiaf yw'r angen am waith atgyweirio.

5.3.9 Dyma bwyntiau allweddol i'w cofio wrth ystyried cynnal gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw:

- Efallai na fydd dull atgyweirio a oedd yn addas ar gyfer un adeilad yn addas ar gyfer un arall. Dylai gwaith atgyweirio gael ei ystyried fesul achos.
- Mae atgyweiriadau sy'n defnyddio deunyddiau a thechnegau priodol yn well na gwaith i ddisodli nodwedd hanesyddol gyfan.
- Lle bo nodwedd hanesyddol wedi dirywio i'r graddau nad oes modd ei hadfer, dylid ei disodli mewn modd 'tebyg am debyg'.
- Wrth geisio gwella nodwedd fodern sy'n methu, ffefrir dyluniad traddodiadol sy'n defnyddio deunyddiau priodol.
- Mae pwyntio â sment yn niweidiol i waith brics a gwaith maen ac yn achosi problemau lleithder. Dylai atgyweiriadau bob amser gael eu gwneud gan ddefnyddio morter calch ac ar ôl gwaredu'r holl ddeunydd smentaidd. Bydd hyn yn sicrhau hir oes i'r gwaith brics/ gwaith maen. Yn yr un modd, dylai unrhyw rendrad allanol a stwcos gael eu defnyddio'n briodol er mwyn osgoi problemau lleithder.
- Dylid rhoi ystyriaeth briodol i oes atgyweiriad a pha waith cynnal a chadw y bydd angen ei wneud i sicrhau'r oes hiraf posibl iddo.
- Mae'r gallu i 'droi'n ôl' yn ystyriaeth bwysig oherwydd gallai opsiynau gwell ymddangos yn y dyfodol.
- Dylid clirio cwteri a phibellau dŵr yn rheolaidd i osgoi rhwystrau a thwf llystyfiant. Dylai'r gwaith cynnal a chadw hwn hefyd ymestyn i ddraeniau lefel y ddaear i sicrhau bod dŵr yn llifo ymaith yn effeithiol.
- Gall glanhau ac ailbaentio'n rheolaidd mewn golch sy'n anadlu estyn hyd oes rendrad allanol.
- Dylid hyfforddi planhigion yn gywir a'u monitro'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn plethu am y gosodiadau ac nad ydynt yn dechrau gwreiddio i'r ffabrig adeiledig.

5.3.10 Mae uPVC yn ddeunydd amhriodol a niweidiol i adeiladau hanesyddol: gall ddifrodi eu cyflwr ac amharu ar eu cymeriad. Dylai eitemau gwaith saer traddodiadol fel ffenestri a drysau ffrynt gael eu cadw a'u hatgyweirio lle bo modd, neu eu disodli â dewisiadau pren o ddyluniad traddodiadol lle bo'r gwreiddiol wedi dirywio i'r graddau nad oes modd eu hadfer. Mae'r defnydd o bren hefyd yn cynnig manteision cynaliadwyedd o gymharu ag unedau uPVC, na ellir eu hailgylchu'n hawdd. Ni ddylid defnyddio cwteri na phibellau dŵr uPVC yn yr ardal gadwraeth chwaith. Mae plwm, haearn bwrw neu alwminiwm haen yn adlewyrchu cymeriad traddodiadol adeiladau hanesyddol yn well.

5.3.11 Mae Cadw wedi cyhoeddi amrywiaeth o ddogfennau canllaw ar reoli newid i ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig, gan gynnwys polisïau cyffredinol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol fel y'u nodir yn *Egwyddorion Cadwraeth* (2011). Mae detholiad o'r rhain wedi'u rhestru yn yr adran Rhagor o Wybodaeth.

**Deall 'Tebyg am Debyg'**

Mae disodli neu atgyweirio 'tebyg am debyg' yn derm a ddefnyddir yn aml yn y maes cadwraeth. Tybir yn aml – ac yn gamsyniol – ei bod yn derbyniol dewis fersiwn fodern sy'n adlewyrchu, yn fras, arddull yr elfen sydd wedi'i thynnu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gywir nac yn dderbyniol. Dylid dehongli 'tebyg am debyg' fel dewis sy'n cyfateb i'r elfen hanesyddol wedi'i thynnu o ran deunydd, dimensiynau, dull adeiladu, gorffeniad, dull gosod ac unrhyw nodwedd arall sy'n benodol i'r elfen wreiddiol, fel ei bod yn anodd gweld y gwahaniaeth rhwng y fersiwn fodern a'r un wreiddiol (gan dderbyn y bydd y cyflwr yn well o lawer lle bo'r fersiwn wreiddiol wedi dirywio i'r graddau nad oes modd ei hadfer).

Er enghraifft, nid yw ffenestri uPVC modern sy'n dynwared ffenestri dalennog Fictoraidd ond sydd â bariau gwydr ffug a mecanwaith agor casment brig-grog yn opsiwn 'tebyg am debyg' ar gyfer ffenestr ddalennog Fictoraidd sy'n llithro ac sydd â ffrâm bren, er bod golwg tebyg ganddynt o ran arddull.

**Rheoli Coed mewn Ardal Gadwraeth**

Mae'r coed aeddfed yn Ardal Gadwraeth Gaerllion yn rhan allweddol o'i chymeriad. Mae angen caniatâd gan Gyngor Dinas Casnewydd i wneud gwaith ar goed o fewn yr ardal gadwraeth sydd â diamedr o 75mm neu fwy, wedi'i fesur 1.5m o lefel y pridd. Diben hyn yw diogelu'r cyfraniad sylweddol y maent yn ei wneud at gymeriad a diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r gwaith y mae angen caniatâd ar ei gyfer yn cynnwys - ond nid yw'n gyfyngedig i – dorri brig coed i reoli twf y coed a chael gwared ar ganghennau sy'n hongian lle maent yn achosi difrod i adeiladau neu adeileddau eraill (neu fod perygl o hynny).

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar gyfer rheoli coed a warchodir (gweler Rhagor o Wybodaeth), ond dylai'r sawl sy'n gyfrifol am goed yn Ardal Gadwraeth Caerllion gysylltu â Chyngor Dinas Casnewydd cyn ymgymryd ag unrhyw waith.

### 5.3.12 Datblygiad Newydd

5.3.13 Mae angen i unrhyw ddyluniad neu ddatblygiad newydd (h.y. newid i'r ardal gadwraeth nad yw'n atgyweiriad) ystyried y canlynol:

- Pwysigrwydd unrhyw adeilad neu nodwedd y cynigir ei dynnu;
- Effaith bosib y dyluniad newydd ar leoliad unrhyw gyfranwyr cadarnhaol cyfagos;
- Sut gellir cynnwys manylion a deunyddiau lleol;
- Yr effaith bosib ar ffiniau lleiniau hanesyddol a'r gymhareb rhwng mannau gwyrdd ac adeiladau;
- Effaith weledol unrhyw nodweddion newydd i'w hychwanegu; ac
- A fydd unrhyw nodweddion pwysig sy'n cael eu hanwybyddu'n aml, megis cefnluniau neu gyrn simneiau pwysig, yn cael eu colli neu eu cuddio o'r golwg.

5.3.14 Nid rhestr gynhwysfawr yw hon: bydd gan bob lleoliad ei ofynion unigryw ei hun ar gyfer dylunio neu ddatblygu newydd sensitif a phriodol. Dylai'r prif nod fod i gadw a gwella cymeriad hanesyddol yr adeiladau dan sylw, eu lleoliad a'r ardal ehangach. Gallai dyluniadau gonest fodern o'r safon uchaf fod yn dderbyniol.

### 5.3.15 Ardaloedd Cyhoeddus

5.3.16 Yn aml mae golwg nodweddion ardaloedd cyhoeddus (biniau, bolardiau, pyst golau ac ati) yn troi'n hen-ffasiwn yn gyflym, weithiau oherwydd traul trwm neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond hefyd o ganlyniad i ddyluniad gwael a thueddiadau byrhoedlog.

5.3.17 Mae cynlluniau ardaloedd cyhoeddus llwyddiannus yn gyd-destunol, gan ddefnyddio deunyddiau o ansawdd uchel sy'n cyfleu cymeriad yr ardal ehangach, a gall y rhain fod naill ai'n draddodiadol neu'n onest fodern eu dyluniad. Hefyd bydd angen ystyried rheoliadau priffyrdd a rhai perthnasol eraill cyn addasu neu ychwanegu at ardaloedd cyhoeddus.

5.3.18 Lle cynigir gwelliannau i'r priffyrdd, dylid cymryd ymagwedd safon gadwraeth. Dylai hyn gynnwys nodweddion megis marciau ffordd culach a mwy golau; er enghraifft, llinellau melyn dwbl meinach mewn melyn briallu, yn hytrach na llinellau trwchus mewn melyn llachar. Dylid cael gwared ar unrhyw arwyddion cyfeiriadol diangen neu ormodol er mwyn gwella amwynder gweledol y strydluniau.

## 5.4 NODAU AC AMCANION

5.4.1 Mae'r nodau a'r amcanion canlynol yn ymateb i'r problemau a'r cyfleoedd a nodwyd yn Ardal Gadwraeth Caerllion a rhoddir ystyriaeth berthnasol iddynt yn erbyn unrhyw gynigion wedi'u cyflwyno a allai effeithio ar ddiddordeb arbennig a chymeriad yr ardal gadwraeth.

5.4.2 Y weledigaeth hirdymor i'r ardal gadwraeth yw cael gwared yn raddol ar unrhyw ychwanegiadau modern byrbwyll ac annog addasiadau o ansawdd uchel fel y caiff pwysigrwydd pob adeilad, a'r ardal gadwraeth gyfan, ei ddatgelu'n fwy clir a'i ddiogelu i'r dyfodol.

**1. Dylai unrhyw ddyluniad, ymyriad neu atgyweiriad newydd fod o'r safon uchaf, beth bynnag yw'r maint, yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn adran 5.3 y Cynllun Rheoli hwn.**
*Rheswm: Diogelu cymeriad yr ardal gadwraeth.*

**2. Bydd adeiladau, nodweddion a mannau y nodir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr ardal gadwraeth yn cael eu diogelu rhag newid niweidiol.**
*Rheswm: Diogelu cymeriad yr ardal gadwraeth yn ei chrynswth a phwysigrwydd ei hasedau treftadaeth unigol, yn unol â pholisïau'r llywodraeth.*

**3. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r potensial archeolegol o dan y ddaear ac o fewn adeileddau sy'n sefyll, lle bynnag y cynigir newid.**
*Rheswm: Yn unol â gofynion Caniatâd Henebion Cofrestredig ac mewn ymateb i'r potensial archeolegol a nodwyd ar draws yr ardal gadwraeth.*

**4. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn annog cynigion sy'n ceisio ymateb i'r cyfleoedd gwella a nodir, yn amodol ar eu dyluniad.**
*Rheswm: Gwella cymeriad yr ardal gadwraeth.*

**5. Anogir tynnu ac atal llystyfiant o waliau terfyn.**
*Rheswm: Gwella gwerth esthetig y strydluniau a gwella cyflwr adeileddau'r waliau.*

**6. Dylid ymatal rhag datblygu o fewn yr ardal gadwraeth mewn modd sy'n effeithio ar ei chymeriad. Anogir datblygu sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at leoliad yr ardal gadwraeth.**
*Rheswm: Diogelu a gwella'r ardal gadwraeth yn unol â pholisïau'r llywodraeth.*

**7. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn gwrthod cynigion i ddinoethi gwaith brics neu waith maen allanol y bwriedid ei rendro yn y gorffennol, a bydd yn cefnogi ailosod y driniaeth allanol hon lle mae wedi cael ei cholli.**
*Rheswm: Diogelu ansawdd pensaernïol yr adeiladau, gan gynnwys gwerth grŵp lle y bo'n berthnasol, a'u cyflwr.*

**8. Dylid lliniaru effaith unrhyw amddiffynfeydd llifogydd newydd ar gymeriad yr ardal gadwraeth a'i leoliad cyn belled ag sy'n ymarferol.**
*Rheswm: Diogelu'r ardal gadwraeth yn erbyn niwed o ganlyniad i ddatblygiad newydd neu effaith llifogydd.*

**9. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn archwilio'r manteision posib o ganlyniad i roi Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar waith ar gyfer lliw paent allanol a rendrad.**
*Rheswm: Cynnal y dewis o liwiau golau nodweddiadol yn yr ardal gadwraeth.*

**10. Dylai nodweddion newydd mewn ardaloedd cyhoeddus fod yn gydlynol ac yn gyd-destunol, gan gynnwys unrhyw gynlluniau dehongli newydd.**
*Rheswm: Gwella cymeriad yr ardal gadwraeth ac annog defnydd o'i mannau cyhoeddus pwysig.*

## Canllawiau Cadw

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (2011). http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation_Principles_CY.pdf

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru (2017) http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20CY.pdf

Canllaw Technegol (llechen naturiol; rendrad calch cyweirio; disodli cordiau sash; ailbwyntio mewn calch; teils carreg; gwydr ffenest) http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/technicalguidance/?skip=1&lang=cy

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru (Mai 2017) http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20CY.pdf

Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru (Mai 2017) http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Managing%20Historic%20Character%20in%20Wales%2031145%20CY.pdf

Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru (Mai 2017) http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Managing%20Listed%20Buildings%20at%20Risk%20in%20Wales%2031144%20CY.pdf

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru (Mai 2017) http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%2026918%20CY

Beth yw Cofrestru? (2002), http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/What_is_Scheduling_EN.pdf

## Cyngor Dinas Casnewydd

Archeoleg ac Ardaloedd Archeolegol Sensitif (Awst 2015) http://www.newport.gov.uk/documents/Planning-Documents/Supplementary-Planning-Guidance/Archaeology-SPG---August-Adoption-Version.pdf

Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026 - http://www.newport.gov.uk/documents/Planning-Documents/LDP-2011-2026/LDP-Adopted-Plan-January-2015.pdf

Canllaw Cynllunio Atodol: Mesurau Diogelwch ar gyfer Blaenau Siopau a Safleoedd Masnachol (Awst 2015), http://www.newport.gov.uk/documents/Planning-Documents/Supplementary-Planning-Guidance/Security-Measures-and-Shop-Fronts-SPG-Aug-2015.pdf

## Llywodraeth Cymru

Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol – http://gov.wales/docs/desh/publications/161117ppw-chapter-6-cy.pdf

Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017) http://gov.wales/docs/desh/policy/170531tan-24-thehistoric-environment-cy.pdf

Coed wedi'u Gwarchod – Canllaw i Drefn Gwarchod Coed (Tachwedd 2013) http://gov.wales/docs/desh/publications/131115protected-treesguide-cy.pdf

## Ffynonellau Eraill

Archwilio. Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru https://www.archwilio.org.uk/arch/

Caerleon Net http://www.caerleon.net/index.htm

Cymru Hanesyddol http://historicwales.gov.uk/#zoom=0&lat=300000&lon=258000&layers=BFFFFFTFFTTT

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru https://cbhc.gov.uk/darganfod/cymru-hanesyddol/

**Estyll Tywydd:** Byrddau wedi'u gosod o fewn triongl talcen tŷ, yn aml wedi'u cerfio neu eu haddurno.

**Briwtalaidd:** Arddull bensaernïol o ganol yr 20fed ganrif a nodweddir gan ei defnydd o ffurfiau bloc mawr a choncrit.

**Bae ar Ogwydd:** Rhan o adeilad sy'n ymwthio allan ag ochrau onglog - tair fel arfer.

**Castellog:** Rhan uchaf 'fylchog' wal a fwriedid yn wreiddiol i fod yn nodwedd amddiffynnol (h.y. fel sydd ar gastell).

**Clasurol:** Arddull bensaernïol sy'n deillio o bensaernïaeth Groeg a Rhufain yr henfyd, a nodweddir gan ddimensiynau cytbwys a chymesuredd.

**Addurniadau:** Gwaith mae neu frics sy'n fframio agorfa neu ongl adeilad.

**Bondo:** Rhan uchaf wal lle mae'n cwrdd â tho bargodol.

**Gweddlun:** Ochr allanol adeilad.

**Ffasgia:** Bwrdd neu arwydd ar draws pen blaen siop.

**To Talcennog:** Lle mae pedair ochr to yn disgyn i gwrdd â'r waliau (gan ffurfio siâp pyramid bas).

**Post Ffenestr:** Bar fertigol mewn ffenestr.

**Boneddigaidd:** Arddull bensaernïol sydd wedi'i dylunio'n bwrpasol i fod yn ddymunol yn esthetig o ran golwg.

**Codwr Stondin:** Plinth solet ar waelod ffenestr blaen siop.

**Linter:** Bar llorweddol mewn ffenestr.

# MANYLION CYSWLLT

### Cyngor Dinas Casnewydd, Tîm Cynllunio

Cyngor Dinas Casnewydd, Tîm Cynllunio
Adfywio, Buddsoddi a Thai
Canolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR

E: planning@newport.gov.uk
Ff: 01633 656656
G: http://www.newport.gov.uk/en/Planning-Housing/Planning/Planning.aspx

### Cadw

Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

E: cadw@wales.gsi.gov.uk
Ff: 0300 0256000
G: http://cadw.gov.wales/?lang=en

### Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent

Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL

E: enquiries@ggat.org.uk
Ff: 01792 655208
G: http://www.ggat.org.uk/

### Victorian Society

1 Priory Gardens
Llundain
W4 1TT

E: admin@victoriansociety.org.uk
Ff: 020 8994 1019
G: http://www.victoriansociety.org.uk/
*(DS: Rheolir yr holl waith achos o Lundain).*

| CYFEIRIAD | STATWS |
|---|---|
| **ASHWELL** | |
| 1-9 Ashwell | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Ashbrook House, Ashwell | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Ashwell House, Ashwell | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Stryd Backhall | |
| 5 Stryd Backhall | Rhestredig Gradd II |
| 6 a 7 Stryd Backhall | Rhestredig Gradd II |
| 8 Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 14 Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 27 Stryd Backhall | Rhestredig Gradd II |
| 29 Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Bakehouse Cottage, 32 Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 33 Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 35 a 36 Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 37-43 Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 44 Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Wal Gardd Pen-y-mynde, Lôn y Castell | Rhestredig Gradd II |
| Rheiliau Gardd a Gât The Hall, Stryd Backhall | Rhestredig Gradd II |
| London House, Stryd Backhall | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| The Hall, Stryd Backhall | Rhestredig Gradd II |
| Tafarn y Red Lion, Stryd Backhall | Rhestredig Gradd II |
| **BELMONT HILL** | |
| Ashwell Cottage, Belmont Hill | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Hill House, Belmont Hill | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| The Vines, Belmont Hill | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **BROADWAY** | |
| Broadlands, Broadway | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Broad Towers, Broadway | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Priory House, Broadway | Rhestredig Gradd II |
| Gatiau mynedfa a rheiliau Priory House, Broadway | Rhestredig Gradd II |

| CYFEIRIAD | STATWS |
|---|---|
| **HEOL BULMORE** | |
| 1 a 2 Bell Cottage, Heol Bulmore | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Eglwys yr Ysbryd Glân, Heol Bulmore | Rhestredig Gradd II |
| Foxley Cottage, Heol Bulmore | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Mission Cottage, Heol Bulmore | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Ciosg ffôn ger cyffordd Heol Bulmore â Heol Isca | Rhestredig Gradd II |
| Tafarn y Bell, Heol Bulmore | Rhestredig Gradd II |
| **STRYD Y CASTELL** | |
| 1-6 Stryd y Castell | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| The Manse, 7 Stryd y Castell | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 8-11 Stryd y Castell | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Tŷ'r Capten, 12 Stryd y Castell | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Hen Gapel, Stryd y Castell | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **HEOL YR EGLWYS** | |
| 2-5 Heol yr Eglwys | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 6-8 Heol yr Eglwys | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 12 Heol yr Eglwys | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 13-17 Heol yr Eglwys | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Eglwys Fethodistaidd, Heol yr Eglwys | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **COLD BATH ROAD** | |
| Stone Cottage, Cold Bath Road | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **CROSS STREET** | |
| 1 Cross Street | Rhestredig Gradd II |
| 2 Cross Street | Rhestredig Gradd II |
| 3 Cross Street | Rhestredig Gradd II |
| 6 Cross Street | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 7 Cross Street | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 8 Cross Street | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 9 a 10 Cross Street | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 15 Cross Street | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 17 Cross Street | Cyfrannwr Cadarnhaol |

| CYFEIRIAD | STATWS |
|---|---|
| 20 a 21 Cross Street | Rhestredig Gradd II |
| 19 Cross Street | Rhestredig Gradd II |
| Pendragon House, 18 Cross Street | Rhestredig Gradd II |
| The Firs, gyda rheiliau ynghlwm, Cross Street | Rhestredig Gradd II |
| **GOLDCROFT COMMON** | |
| 12-16 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 19 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 21 a 22 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 26 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 27-29 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 33 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 34 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 35 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 37 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 38-43 Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Penry House, Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Sainbury's (rhan flaen yn unig), Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| The Goldcroft, Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| The Green, Goldcroft Common | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **HANBURY CLOSE** | |
| King's House, Hanbury Close | Rhestredig Gradd II |
| Nailery Cottage, Hanbury Close | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Wal y cei a'r lanfa yn yr Hanbury Arms, ger Hanbury Close | Rhestredig Gradd II |
| Tafarn yr Hanbury Arms, Hanbury Close | Rhestredig Gradd II |
| Tŵr i'r de-orllewin o, ac ynghlwm wrth, yr Hanbury Arms, Hanbury Close | Rhestredig Gradd II* |
| **STRYD FAWR** | |
| 1-4 Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 5 Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 6 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |

| CYFEIRIAD | STATWS |
|---|---|
| 9 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 10 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 11 a 11A Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 12 a 13 Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 15 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 16 Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 17 a 18 Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 20 Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 21 Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 22 Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 23 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 24 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 25 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 27 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 28 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 29 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| 30 Stryd Fawr, gan gynnwys rheiliau ynghlwm | Rhestredig Gradd II |
| 32 Stryd Fawr, gan gynnwys rheiliau | Rhestredig Gradd II |
| 33 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Wal derfyn rhwng The Priory Hotel a Rhif 35 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Cadoc House (canolfan feddygol), Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Ysgol Iau a Babanod Caerllion, Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Eglwys Seintiau Dewi, Silian ac Aaron, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Gatiau mynedfa a rheiliau'r Ysgol Waddoledig, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Canolfan Celfyddydau Ffwrwm, Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Blwch llythyrau y tu allan i'r swyddfa bost, 31 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Porth mynwent Eglwys Cadog Sant, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Porth-y-mynde, wal a gatiau mynedfa Caer Cottage, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |

| CYFEIRIAD | STATWS |
|---|---|
| Ciosg ffôn ger Tafarn y Goldcroft, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Ciosg ffôn y tu allan i'r swyddfa bost, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Yr Ysgol Waddoledig, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Tafarn yr Olde Bull, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| The Old Malthouse, Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Y swyddfa bost, 31 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Tŷ'r Offeiriad gyda wal a gatiau ynghlwm, 19 Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| The Priory Hotel, Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| Neuadd a Llyfrgell y Dref, Stryd Fawr | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Waliau rhifau 14 a 15A Stryd Fawr | Rhestredig Gradd II |
| **HEOL ISCA** | |
| White Lion House, 1 Heol Isca | Rhestredig Gradd II |
| 2 Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 1 a 2 Church Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Churn Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Cider Mill House, Isca Road | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Coach House, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Glan-yr-Afon Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Grange Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Great House and Heron House, Heol Isca | Rhestredig Gradd II |
| Hambrook Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Hawkings Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Isca Grange, gan gynnwys rheiliau a gât cwrt blaen sydd ynghlwm, Heol Isca | Rhestredig Gradd II |
| Ivy Cottage, Rose Cottage a Glandwr, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Bythynnod Lincoln, Marrows, Usk, May a Cromwell, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Moss Cottage a Fern Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Pear Tree Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| River Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| The Hollies, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| The Retreat, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |

| CYFEIRIAD | STATWS |
| --- | --- |
| The White Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Walnut Tree Cottage, Heol Isca | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **STRYD Y FELIN** | |
| 15 Stryd y Felin | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 22 Stryd y Felin | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 24-32 (eilrifau) Stryd y Felin | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 86 a 88 Stryd y Felin | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Millbrook Cottage, 92 Stryd y Felin | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Millbrook House, 94 Stryd y Felin | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 98 Stryd y Felin | Rhestredig Gradd II |
| 96 Stryd y Felin | Rhestredig Gradd II |
| Tŷ Brodawel (gan gynnwys y wal), Stryd y Felin | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Wal gardd Castle Acre, Stryd y Castell | Rhestredig Gradd II |
| Wal gardd y Mynde, Lôn y Castell | Rhestredig Gradd II |
| Wal gardd Tŷ'r Offeiriad | Rhestredig Gradd II |
| Poacher's Cottage, Stryd y Felin | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **STRYD YR AMGUEDDFA** | |
| 4 Stryd yr Amgueddfa | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Portico cerrig nadd yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Stryd yr Amgueddfa | Rhestredig Gradd II |
| Jubilee Cottages, Stryd yr Amgueddfa | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Polyn lamp ym mynwent Eglwys Cadog Sant, Stryd yr Amgueddfa | Rhestredig Gradd II |
| Eglwys Cadog Sant, Stryd yr Amgueddfa | Rhestredig Gradd II* |
| **HEOL NEWYDD** | |
| The Malt House Hotel, Heol Newydd | Rhestredig Gradd II |
| Yr Hen Dolldy, Heol Caerllion/Heol Newydd | Rhestredig Gradd II |
| Ship Inn, Heol Newydd | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **STRYD NORMAN** | |
| 1-5 Stryd Norman | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 6-9 Stryd Norman | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 10 Stryd Norman | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Orchard House, Stryd Norman | Cyfrannwr Cadarnhaol |

| CYFEIRIAD | STATWS |
|---|---|
| **HEOL YR ORSAF** | |
| Minstrels' Sports Bar, 1 Heol yr Orsaf | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| 6 a 7 Heol yr Orsaf | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| **LÔN WHITE HART** | |
| 1-4 Teras Carlton, Lôn White Heart | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| | |
| Bridge House, Uskside | Cyfrannwr Cadarnhaol |
| Pont Caerllion, Heol Caerllion | Rhestredig Gradd II |
| Ffynnon Yfed Cofeb y Rhyfel, Parc Neuadd y Dref | Rhestredig Gradd II |

## Henebion Cofrestredig

| Cyfeirnod: | Enw'r Safle |
|---|---|
| MM014 | Twmpath Castell Caerllion |
| MM037 | Tŵr Canoloesol yr Hanbury Arms |
| MM230 | Caer Lengol Caerllion |
| MM231 | Anheddiad Sifil Caerllion |
| MM232 | Amffitheatr Caerllion |
| MM233 | Caer Lengol Caerllion: Goldcroft Common |
| MM234 | Caer Lengol Caerllion: Caeau'r Ysgol |
| MM235 | Caer Lengol Caerllion: Tiroedd Cartref Cadog Sant |
| MM236 | Caer Lengol Caerllion: Ardal rhwng The Priory Hotel a Priory Lodge |
| MM237 | Caer Lengol Caerllion: Cae i'r de-ddwyrain o Broadway |
| MM238 | Caer Lengol Caerllion: Tiroedd yr Amgueddfa |
| MM239 | Caer Lengol Caerllion: Gardd Gefn Rhif  4 Stryd yr Amgueddfa |
| MM240 | Caer Lengol Caerllion: Ardal y tu ôl i Caerleon House |
| MM241 | Caer Lengol Caerllion: Parc Neuadd y Dref, Stryd Fawr |
| MM242 | Caer Lengol Caerllion: Ardal o Farics Myrtle Cottage |
| MM243 | Caer Lengol Caerllion: Ardal ger Lôn White Hart |
| MM245 | Caer Lengol Caerllion: Tiroedd y Clinig Iechyd |
| MM246 | Caer Lengol Caerllion: Tiroedd Cartref Nyrsio Croft |
| MM247 | Caer Lengol Caerllion: Gardd yr Hen Ficerdy |
| MM248 | Caer Lengol Caerllion: Hen Ardd The Firs |
| MM252 | Caer Lengol Caerllion: Maes Parcio a Gardd yr Ysgol Waddoledig, i'r gogledd o Broadway |
| MM254 | Anheddiad Sifil Caerllion: Ardal o dan Gaeau Chwarae Broadway |

[MAE'R DUDALEN HON WEDI'I GADAEL YN WAG YN FWRIADOL]

Newport
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
Casnewydd

PURCELL
www.purcelluk.com